Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 06.06.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Addasu Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)** |

### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Rydym yn cytuno'n fras â'r cynigion i ehangu'r rhestr o gymwysterau procsi cymeradwy a chynnwys cymwysterau procsi ar gyfer Llythrennedd Digidol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael â'n pryderon nad yw prentisiaid sydd eisoes wedi ennill cymwysterau procsi, ac felly ddim yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn ystod eu prentisiaeth, yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn gyson. Credwn y dylai prentisiaid o'r fath barhau i ddatblygu'r medrau hyn wrth gwblhau aseiniadau, prosiectau a thasgau yn y gweithle.

Rydym yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofyniad i ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn prentisiaethau gradd a phrentisiaethau proffesiynol. Fodd bynnag, sylwn nad yw'r cynnig hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn prentisiaethau uwch ar lefel 4 neu 5 sydd efallai â graddau perthnasol, hefyd. Rydym yn awgrymu y dylai'r cynnig fod yn gyson ar draws pob prentisiaeth a phob lefel. Gellid cyflawni hyn trwy feini prawf procsi clir ar bob lefel prentisiaeth. Dylid disgwyl i ddysgwyr wella'u medrau gyda chymorth staff trwy dasgau a phrosiectau sy'n digwydd yn naturiol sy'n rhan o'u prentisiaeth ac nid yn ddarnau gwaith unigol sydd wedi'u datgysylltu o gynnwys a maes dysgu'r rhaglen.

Rydym yn cefnogi'r cynnydd i gynyddu isafswm y credydau sydd eu hangen o 37 i 38, er nad yw sail y dystiolaeth a gyflwynir yn y cynnig ymgynghori yn gryf.

Caiff ein hymateb ei lywio gan ddau adroddiad thematig diweddar, sef:

- *Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth* (2023)
- *Prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith* (2018)

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Cwestiwn 1:
Beth yw eich barn ar ehangu rhestr y procsiau ar gyfer Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, a chynnwys procsiau ar gyfer Llythrennedd Digidol?

Rydym yn cytuno â'r cynnig i gydnabod cymwysterau procsi ar gyfer Llythrennedd Digidol. Amlygodd ein hadroddiad thematig diweddar, Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth (2023), yr ymagwedd anghyson at brocsiau ar gyfer cymwysterau SHC mewn fframweithiau prentisiaethau, yn enwedig o ran Llythrennedd Digidol. Byddai'r cynnig yn cael gwared ar yr anghysondeb hwn.

Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig i ehangu'r rhestr o gymwysterau procsi cymeradwy (Atodiad 1) ar y sail y dylai hyn leihau baich asesu di-fudd ar ddysgwyr sydd eisoes wedi dangos cymhwysedd ar y lefel briodol. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn ein hadroddiad thematig 2023 (uchod) a'n hadroddiad yn 2018, Prentisiaethau uwch mewn dysgu yn y gwaith, o ran

dysgwyr sy'n dilyn prentisiaethau uwch ar lefel 4 neu 5 y gallent fod wedi ennill cymwysterau lefel uwch (er enghraifft, graddau mewn Saesneg neu TG). Mae hyn yn effeithio ar nifer gymharol fach o ddysgwyr a gellid mynd i'r afael ag ef trwy fabwysiadu ymagwedd gyson at arweiniad ar bob lefel.

**Nid yw'r** cynnig yn mynd i'r afael â maes allweddol i'w wella ac argymhelliad cysylltiedig a nodwyd yn ein hadroddiad 2023, sef, 'Er bod darparwyr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ennill y cymwysterau SHC sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu fframwaith, nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y cymwysterau SHC gofynnol neu sydd wedi'u heithrio trwy brocsi yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol yn gyson' (tud.10). Efallai y byddwch eisiau ystyried sut gellid annog darparwyr i gefnogi'r datblygiad parhaus hwn o ran medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol lle nad oes gofyniad i brentisiaid ddilyn SHC.

Cwestiwn 2:
Beth yw eich barn ar yr addasiadau arfaethedig i ofynion Sgiliau Hanfodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn. Caiff ei gefnogi gan ganfyddiadau ein hadroddiad yn 2023, a ddywedodd fod ennill cymwysterau SHC yn rhwystr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol rhag llwyddo yn y fframwaith yn gyffredinol (tud.11).

Hoffem weld arweiniad clir yn cael ei roi i ddarparwyr a dysgwyr ynglŷn â'r addasiadau posibl a allai fod ar gael i'w cynorthwyo.

Cwestiwn 3:
Beth yw eich barn ar ddileu'r gofyniad i ddysgwyr sy'n dilyn prentisiaethau gradd a phrentisiaethau proffesiynol ymgymryd â Sgiliau Hanfodol?

Rydym yn cytuno â'r cynnig hwn, ond fel y nodwyd yn ein hymateb i Gwestiwn 1, rydym yn meddwl y gallai hefyd fod yn berthnasol i ddysgwyr â chymwysterau perthnasol ar lefel gradd sy'n dilyn prentisiaethau uwch ar lefel 4 neu 5. Credwn y dylai'r brand prentisiaethau fod yn gyson ar draws pob lefel, gyda meini prawf clir ar sut mae prentisiaid yn parhau i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae'r cynnig yn tybio bod pob dysgwr sy'n dilyn prentisiaethau gradd a phrentisiaethau proffesiynol yn meddu ar y medrau priodol.

Cwestiwn 4:
Beth yw eich barn ar y newid yn ymwneud â chynyddu isafswm y credyd cymhwyster o 37 credyd i 38 credyd (ac eithrio gwerthoedd credyd Sgiliau Hanfodol)?
Nid yw'n glir o'r ddogfen ymgynghori beth yw sail y dystiolaeth ar gyfer cynyddu isafswm y credyd cymhwyster o 37 credyd i 38 credyd. Gan fod llawer o fframweithiau yn gofyn am fwy o gredydau na hyn yn ymarferol, ni fyddai'n ymddangos bod hyn yn debygol o gael effaith sylweddol, felly byddem yn cefnogi'r newid.